# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 7fed o Chwefror am 1830yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Lowri Evans

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Lowri Evans

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris

**3. Trafodaeth gyda Naomi Jones, Marian Pye ac Abbie Edwards Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri/Discussion**
Trefnwyd erbyn cyfarfod Mis Mawrth.

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 9fed o Ionawr 2025.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1 Arwyddion Maes y Groes –**Cafwyd ddiweddariad gan Meirion Macintyre Huws mai y syniad gwreiddiol oedd codi arwydd anstatudol gyda diwyg cwbl ar wahân, yn nodi lle mae Maes y Groes. Ond erbyn hyn nid yw Priffyrdd yn awyddus i godi arwyddion anstatudol drwy'r sir felly awgrymodd Prifyrdd y dylid mabwysiadu'r enw a'u wneud yn statudol. Nid oes gan y Cyngor y statws cyfreithiol i wneud hynny.
Mae trafodaeth felly ar y gweill. Disgwylir ddiweddariad.

**5.2 Bin Halen Bryn Derwas –** Ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Ian Morgan, y pris diweddaraf am fin 340 litr oedd £362.67. (Mae hyn yn dyddio o 2022 felly bydd angen ei ddiweddaru). Opsiwn arall yw ail-leoli un o'r biniau presennol sydd ddim yn derbyn llawer o ddefnydd. Mae'r gweithlu wrthi'n cwblhau Ardal 3 ar hyn o bryd sydd yn cynnwys Llanllechid. Maent yn nodi lefel yr halen yn y biniau wrth iddynt ail-lenwi. Mr Morgan am amlygu unrhyw finiau sydd heb gael defnydd yn ystod y cyfnod oer.

Un awgrym gan Y Cyngor Cymuned oedd bin halen Maes y Groes. Y Clerc i gysylltu gyda Mr Morgan.

**5.3 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Diweddariad gan Mr Steffan Jones 13/6/24, 'Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o ddŵr yn rhedeg ar hyd ochr Lon Aberogwen a bydd ymchwiliad i ffynhonnell y dŵr yn cael ei gyflawni. Bydd unrhyw weithred yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymchwiliad. Gallwn gyflwyno sylwadau pellach ar gyfer eich cyfarfod nesaf.'
Adroddwyd fod y ffordd yn Ty'n Hendre wedi ei drwsio.

**5.4 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio. Trafodwyd y pwnc o osod bin yn y cilfan. Mae cyfarfod gyda'r Uwch Reolwr Cefnffyrdd wedi ei drefnu, lle bydd y cais yn cael ei ystyried yn fanwl gan gynnwys asesiad risg. Unawgrym yw treialu bin yn y cilfan. Disgwylir diweddariad unwaith bydd penderfyniad wedi ei wneud. Dim diweddariad.

**5.5 Tai i bobl lleol –** Cais Cyngor Gwynedd am Safleoedd Posibl y Cynllun Datblygu Lleol Arfaethedig - Y Cyng Robin Williams i ymateb gyda'r awgrym fod Chwarel Pantdreiniog yn addas. Gan nad oes safleoedd addas ym mhlwyf Llanllechid.

**5.6 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Diweddariad ar y 13fed o Dachwedd gan Steffan Jones, Pennaeth adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd. 'Cadarnhaf i'r gwaith hwn barhau i fod ar ein rhaglen, sut bynnag mae ein gallu i gyflawni'r gwaith yn ddibynnol ar flaenoriaethau ac adnoddau. Gyda'r Cyngor yn wynebu toriadau mewn cyllideb mae'n anorfod bydd hyn yn cael effaith y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Ar hyn o bryd, nid oes modd nodi dyddiad penodol i'r gwaith'
Y Clerc i anfon antgoffyn i Gyngor Gwynedd pob 3 mis.

**5.7 Lon Wig -** Adroddwyd fod terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr.
Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Is-adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

'Mae swyddogion Llywodraeth Cymru dal yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd a byddwn yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl.' Dim diweddariad.
Y Clerc i ddilyn i fyny.

**5.8 Torri gwair Bro Emrys** –Derbynwyd ebost gan Adam Roberts yn ymddiheuro ni fydd mewn sefyllfa i dorri'r gwair yn y stad oherwydd trafferthion gyda bin brown. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am amcan bris.

**5.9 Lloches bws ar gyfer Ffordd Llwyn Bleddyn –** Cynlluniau yn ei lle i osod ym mhlwyf Bethesda. Clerc i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**5.10 Polisi Iaith.** Ar yr agenda.

**5.11 Sedd Gwag –** Y Clerc i hysbysebu Sedd Wag Llanllechid Uchaf

**5.12 Wern bach -** Adroddwyd fod y dwr ar y ffordd wedi gwaethygu, ac yn rhewi yn y tywydd garw. Y Clerc i gysylltu gyda Ian Morgan, Cyngor Gwynedd.

**5.13 Polyn trydan Talybont-** adroddwyd fod polyn trydan perygl wrth Cae chwarare Talybont. Y Cyng Wyn Bowen Harries i dynnu llun y polyn, a'r clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd.

## 6. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.

Dim adroddiad.

## 7. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Batri Defib Llanllechid | £66 |
| Llais Ogwan | Hysbyseb Rhoddion | £20.70 |

## 8. Y Mynydd

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod yn y flwyddyn newydd.

Mabwysiadwyd y rheol newydd arfaethedig mewn egwyddor yng Nghyfarfod Mis Tachwedd. Y Cyng Wyn Bowen Harries i ddiwygio'r rheolau ar gyfer cytundeb terfynol.

Swydd Bugail mynydd wedi ei hysbysebu gyda dyddiad cau 14/2/25.

## 9. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont

**9.1 Contractwyr -** Cafwyd y trydydd dyfynbris, bydd angen cael diweddariad ar y ddyfynbrisiau cynt. Un diweddariad wedi ei dderbyn.
Y Cyng Evan Jones am gysylltu gyda cwmni sydd yn gwneud offer allan o blastic wedi ei hailgylchu ac hefyd cwmni sydd yn arbenigo mewn gôliau.

**9.2 Parcio** –Cyngor Gwynedd am ddrafftio cynllun, cael amcanbris a hawl cynllunio i'r maes parcio. Dim diweddariad ers peth amser. Y Clerc i gysylltu gyda Mr Steffan Jones am ddiweddariad.

**9.3 Grant Loteri -** Y Cyng Evan Jones wedi cychwyn ar gam cyntaf y broses grant loteri, sef trafodaeth dros y ffôn. Dogfennau rwan i'w gyrru at y pwynt cyswllt.

**10. Rhoddion/Gifts**

Penderfynwyd ar y rhoddion isod,
Llais Ogwan £120
Theatr Bara Caws £50
Clwb Criced a Bowlio Bethesda £100
Ambiwlans awyr £100
Cymdeithas hanes Dyffryn Ogwen £100
Clwb hanes Llanllechid £100
Carnifal Bethesda £100
Cronfa cyfle I bawb yr Urdd £100
Hwb Ogwen £100
Brownîs Nant Ffrancon £100
Cerebral Palsy Cymru £80
Hospis Dewi Sant £50
Ffermwyr Ifanc Bethesda £100

**11. Polisi Iaith/Language policy**

Mabwysiadwyd y 'Memorandum o ddealltwriaeth Cynghorau Cymuned Cymraeg Gwynedd'.

**12. Llyfrgell Cymunedol/ Community library**

Cafwyd dadansoddiad mwy manwl gan Y Cyng Dafydd Meurig am y biliau trydan a derbynwyd, hefyd anfonwyd cais at Octopus i adolygu'r taliadau. . Disgwylir am ymateb gan Octopus. Dim diweddariad.

**13. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chewefror 2025'

13.1 Argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Penderfynwyd cefnogi'r bwriad. Y Clerc i anfon ymateb.

13.2 Sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor – Penderfynwyd cefnogi y bwriad
13.3 Ymgynghoriad Uchelgais Gogledd Cymru – Y Cynghorwyr i gwblhau yn unigol

Derbynwyd ebost gan drefnwyr Ras Copaon 1000m Cymru a chynhalwyd ar y 31fed o Fai. Y Clerc i ymateb yn gofyn i'r trefnwyr gysylltu a'r Cyng Alun Thomas i drafod. Mae'r dyddiad yn cyd-daro ag amser tyngedfennol yn y calendr ffermio.
Y Clerc i hefyd ebostio Simon Rogers o'r Parc Cenedlaethol i amlygu problemau gyda'r dyddiad a drefnwyd.

## 14. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Dim i adrodd.

## 15. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**NP3/21/T78**
Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon
Amrywio Amodau 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ac 8 (Maint y cerbydau danfon) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP3/21/T78
**Penderfyniad** Ar y gweill

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gwrthwynebu. Y Cyng Robin Williams am ddrafftio'r gwrthwynebiad.

**Ceisiadau Newydd**
Dim

**16. Materion Brys/Eraill**

-Arwydd Llanllechid wedi torri – Y Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd
-Llwybr Tanybwlch – Derbynwyd cwynion fod staff yn y ganolfan Outreach wedi bod yn troi pobl yn nol oddi ar lwybr cyhoeddus Tan Y Bwlch sy'n arwain fyny i'r mynydd. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
- Lôn Goed – Lôn wedi culhau. - Y Clerc i adrodd at Gyngor Gwynedd
- Grât dros ffordd i Fferm Corbri wedi disgyn – Y Clerc i adrodd at Gyngor Gwynedd
- Lôn Goed –drain wedi gordyfu. Y Clerc i adrodd at Gyngor Gwynedd

**17. Adroddiad Llais Ogwan**
Rhoddion